CYNGOR TREF LLANGEFNI

COFNODION o Gyfarfod Llawn y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 6.30y.h. **Nos Lun, 5ed o Dachwedd 2018** yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Llangefni.

PRESENNOL : Cyng. Ieuan G. Davies - Maer
Cyng. Margaret Thomas - Dirprwy Faer
Cyng. Llinos G. Jones
Cyng. Terry Jones
Cyng. John Lee
Cyng. Christine Roberts
Cyng. Dylan W. Rees
Cyng. John Huw Owen
Cyng. Arwel Môn Hughes
Cyng. Non Wyn Parry
Cyng. John Egryn Lewis
Cyng. Victor Hughes

HEFYD YN BRESENNOL : Cyng. Nicola Fay Roberts, Cynghorydd Sir.

CLERC : Mr. Rhys Parry
Ms. Linda Powell – Cymorthydd Clerigol

18/172 **YMDDIHEURIADAU :** Cyng. Donna Catrin Jones, Mr. Richard Parry, Heddlu.

18/173 **DATGANIAD O DDIDDORDEB :**
Cyng. Dylan W. Rees : Eitem 18/184 - Clwb Pêl Droed
Cyng. J. Egryn Lewis : Eitem 18/177.1 – Menter Gymdeithasol Llangefni
Cyng. Nicola Roberts, fel Cynghorydd Sir : Eitem 18/179 – Holl Faterion/Ceisiadau Cynllunio.

18/174 **HEDDLU GOGLEDD CYMRU :**
Difrod i'r Lawnt Bowlio, Lon Las - Dim trafodaeth gan fod dim Cynrychiolydd o'r Heddlu yn bresennol.

18/175 **DATGANIAD DERBYN SWYDD :** I drafod o dan Eitem 18/186 o'r Rhaglen – Sedd Wag – Ward Cyngar.

18/176 **I DDERBYN CYWIRDEB COFNODION CYFARFOD LLAWN 01.10.2018**
PENDERFYNWYD i dderbyn cywirdeb y Cofnodion.
Cyng. John Lee yn Cynnig - Cyng. Dylan W. Rees yn Eilio **Derbyn.**

18/177 **I YSTYRIED MATERION YN CODI O GOFNODION 01.10.2018 :**

1 **Eitem 18/177.1 Menter Cymdeithasol Llangefni – Noson Troi'r Goleuadau Nadolig Ymlaen**
Y Maer yn arwain Aelodau trwy e-bost wedi ei dderbyn gan Aelod o'r Fenter Gymdeithasol yn amlinellu trefniadau ar gyfer noson y 7fed o Ragfyr 2018, yn cynnwys nifer o weithgarethau a themâu trafodiadol.
Yn dilyn Cyfarfod gyda'r Fenter Gymdeithasol ar 17eg o Hydref 2018, Y Maer yn ail-adrodd fod Aelodau Cyngor Tref Llangefni wedi cytuno i gyd-weithio gyda'r Fenter ac yn gofyn am wirfoddolwyr ar gyfer Noson y 7fed o Ragfyr 2018.
Cynrychiolydd o'r Fenter Gymdeithasol yn cyflwyno i'r Aelodau ei gwerthfawrogaeth o gael Gwirfoddolwyr i gymryd rhan a rhoi cymorth ar y noson, ac i gysylltu yn uniongyrchol gyda'r Cynrychiolydd i roi eu henwau ymlaen. Hefyd, bydd dyddiadau o Gyfarfodydd yn y dyfodol yn cael eu hanfon i'r Aelodau trwy'r Swyddfa, ac mae croeso i rywun o'r Cyngor Tref fynychu.
Yn parhau o Nos Wener, 7fed o Ragfyr, mae digwyddiadau Nadoligaeth wedi eu trefnu ar gyfer Ddydd Sadwrn 8fed o Ragfyr 2018, o gwmpas Maes Parcio Neuadd y Dref.

2 **Eitem 18/177.2 - Toiledau Cyhoeddus -** Ateb wedi ei dderbyn gan Gyngor Sir Ynys Môn - dim trafodaeth.

3 **Eitem18/177.3 - Diogelwch o gwmpas ardal yr Ysgol Gyfun –** Dim wedi derbyn ymateb gan yr Ysgolion cyfagos. Aelod yn adrodd fod awgrymiad gan y Cynulliad i osod arwyddion 20mya mewn parthau fel hyn. **Cytuno** i ddisgwyl am fwy o wybodaeth.

4 **Eitem 18/177.4 - Cyfoeth Naturiol Cymru - Llifogydd -**
Cyfarfod Grwp Partneriaeth Llifogydd 08.11.2018. Aelodau i adrodd yn ol.

5 **Eitem 18/177.5 - Rheolau Diogelu Data Cyffredinol - GDPR -** Aelodau i gwblhau'r Hyfforddiant Ar Lein. Y Swyddfa i gysylltu gyda Chyngor Sir Ynys Mon/NHS i gael caniatâd i ddefnyddio eu Linc er mwyn symud ymlaen gyda'r Hyfforddiant. Y Clerc yn cydnabod fod rhai o'r Aelodau wedi danfon Tystysgrif/Prawf eu bod wedi cwblhau'r Hyfforddiant i'r Swyddfa.

6 **Eitem 18/177.6 – Safle Hafan Cefni –** Gwahoddiad i'r Aelodau i Agoriad Swyddogol Dydd Mercher 14eg o Dachwedd 2018 am 10.00y.b.
Aelod yn pryderu fod cyflwr y Cysodfannau Bwses ar yr Ystâd Ddiwydiannol ger Hafan Cefni yn annerbyniol oherwydd bod y "perspex" yn afliwiedig. Yr Aelod yn awgrymu fod angen gwneud ymdrech i ddatrys hyn. Cost o newid y perspex tua £300.00 & TAW.

7 **Eitem 18/177.7 – Safle Ysbyty Cefni –** Clerc yn cyfathrebu gyda'r Bwrdd Iechyd i symud ymlaen gyda'r broses o roi defnydd o'r safle i'r Cyngor Tref.

8 **Eitem 18/177.8 – Rheolau Sefydlog –** Wedi eu dosbarthu i'r Aelodau.

18/178 I DDERBYN CYWIRDEB COFNODION CYFARFOD LLAWN ARBENNIG 27.09.2018 I DRAFOD MATERION CYLLID
PENDERFYNWYD i dderbyn cywirdeb y Cofnodion.
Cyng. Dylan W. Rees yn Cynnig - Cyng. Margaret Thomas yn Eilio **Derbyn.**

18/179 I DDERBYN PENDERFYNIADAU PWYLLGOR CYNLLUNIO 17.10.2018
PENDERFYNWYD i dderbyn y penderfyniadau.
Cyng. John Lee yn Cynnig - Cyng. Margaret Thomas yn Eilio **Debyn.**

18/180 I DDERBYN ARGYMHELLION PWYLLGOR CYLLID AC AMCANION CYFFREDINOL 25.11.2018
Cyfarfod wedi ei ohirio – Dyddiad y Cyfarfod nesaf i'w drefnu.

18/181 I DDERBYN ARGYMHELLION PWYLLGOR STAFFIO A SAFONAU 31.10.2018
Cyfarfod wedi ei ohirio oherwydd disgwyl canlyniadau "Job Evaluation" gan Swyddog o SLCC. Dyddiad y Cyfarfod nesaf i'w drefnu.

18/182 I DDERBYN UNRHYW GYFATHREBION Y MAER

1 **Sul y Maer -30.09.2018 –** Y Maer wedi derbyn llythyr o ddiolch oddiwrth Gartref Coedlys am y Cyfraniad.

2 **"Gospel Night" gan Elvis, Eglwys St. Cyngar 06.10.2018 -** Noson Lwyddiannus - Elw yn mynd tuag at cynnal a chadw'r Fynwent, Eglwys Tregaian.

3 **Gwasanaeth Sul y Cadeirydd, Cyngor Sir Ynys Mon 14.10.2018 –** Wedi mwynhau'r Gwasanaeth.

4 **Arddangosfa Tan Gwyllt, Cyngor Tref Beaumaris 03.11.2018 -** Wedi ei ohirio oherwydd y tywydd garw - ail-drefnu Nos Sadwrn 10.11.2018.

5 **Sul y Cofio 2018 -** Y Maer yn atgoffa'r Aelodau o'r drefn eleni.

6 **Cystadleuaeth Addurno Ffenestri Siopau ar gyfer y Nadolig –** Llythyrau wedi cael eu dosbarthu i'r Siopau/Busnesau Lleol. Beirniadu yn ystod prynhawn 7fed o Ragfyr 2018, canlyniadau yn cael eu cyflwyno fel rhan o'r Noson Dathlu'r Nadolig.

18/183 MATERION YN CODI GAN AELODAU

1 **Cyng. Dylan W. Rees : Adolygiad Annibynnol ar Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru :**
"Cynghorau Cymuned a Thref – Sut y cânt eu dwyn i gyfrif" - Aelod yn adrodd fod yn bwysig i Gynghorau Tref a Chymuned fod yn atebol am eu gweithredoedd am eu bod yn codi ac yn gwario arian cyhoeddus ac yn rhedeg gwasanaethau cyhoeddus. Argymell darparu taflen wybodaeth gyda hysbysiad ynghylch y Prasept, yn nodi cynlluniau am y flwyddyn a bwriad y gwariant am y flwyddyn a fydd ar gael yn gyhoeddus.
Aelod yn argymell fod y Cyngor Tref yn dechrau dangos ymarfer da ac yn cynnig dau argymhelliad :

(a) Darparu taflen gwybodaeth yn unol â'r uchod a rhoi cynllun at ei gilydd gyda chyflawniad am y Flwyddyn;
(b) Adrodd yn ôl i'r cyhoedd beth mae'r Cyngor yn cyflawni a rho'i wybodaeth ar y Wefan,

yn cynnwys cyflawniad o bresenoldeb Cynghorwyr mewn Cyfarfodydd am y flwyddyn, lwfans y Cynghorwyr.
Cyng. J. Egryn Lewis yn Cynnig - Cyng. Margaret Thomas yn Eilio - **Derbyn.**

Er gwybodaeth - Mae'r Adroddiad Terfynol sydd yn cynnwys nifer o argymhellion o'r newydd ar gael wrth ddilyn y Linc ***ATODOL*** neu mae copi caled ar gael i'w ddarllen yn y Swyddfa.

2 **Cyng. Victor Hughes : Safle Tŷ Clwb -** (a) Defnydd o'r Toiledau
(b) Dyfodol y Tŷ Clwb.
I gael eu trafod o dan Eitem 18/184 o'r Rhaglen – **Cytuno.**

18/184 **SAFLE TŶ CLWB**
Oherwydd cymhlethdod yr Eitem yma ac Eitem 18/183.2 uchod :
(a) **PENDERFYNWYD** i ohirio'r drafodaeth hyd nes derbyn cyngor cyfreithiol ar fanylder cynnwys Llythyr Clwb Pêl Droed Llangefni; Nodwyd fod y Clwb Pêl Droed yn gofyn am ymateb erbyn 16eg o Dachwedd 2018.
(b) Ar ol derbyn yr uchod, trefnu dyddiad ar gyfer Cyfarfod Llawn Arbennig i drafod yr Eitem yma.
Cyng. Margaret Thomas yn Cynnig - Cyng. J. Egryn Lewis yn Eilio - **Derbyn.**

PENDERFYNWYD ynghyd a'r uchod i anfon Les Clwb Pêl Droed Llangefni ymlaen i'r Cyfreithiwr i dderbyn arweiniad cyfreithiol ar gynnwys y Les.

18/185 **ADRODDIAD Y CLERC**

1 **Goleuadau Nadolig 07.12.2018 –** Wedi trafod o dan Eitem 18/177.1.

2 **Safle Cae Criced -** Clerc yn adrodd yn ol, fod yr Ymddiriedolwyr wedi cyfarfod gyda Chynrychiolydd o'r Cyngor Tref ar 02.10.2018 pan gytunwyd i drosglwyddo'r Cae i feddiant y Cyngor Tref. Mae'r broses nesaf mewn lle gan Gyfreithiwr y Cyngor Tref.

3 **Cae Chwarae, Lon Newydd –** Clerc yn adrodd fod y Cyfreithiwr yn symud ymlaen i weithredu ar ran y Cyngor Tref.

4 **Ardal Pen Derwydd -** Yn dilyn derbyn cwyn ynglŷn ag ymddygiad gwrthgymdeithasol o gwmpas yr ardal yma, Clerc yn adrodd fod yr Heddlu yn ymwybodol o hyn a bod y lleoliad yma ar eu rhestr i batrolio.
Cytunwyd i anfon llythyr at y Datblygwyr i ddatrys pwy sydd yn gyfrifol am atgyweirio'r ffens.
Cafwyd trafodaeth ynglyn a therfyn y Maes Chwarae cyfagos a phwy sydd yn gyfrifol am y tir yma.
PENDERFYNWYD i wneud camau i ddatrys terfyn y Maes Chwarae.
Aelod yn awgrymu, oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch, i ystyried Asesiad Risg ar y llwybr sydd yn arwain i fynnu ac i lawr o'r cae.

Cyflwyniadau mewn Cyfarfodydd – Cadeirydd yn adrodd, os bydd Mudiad/Unigolion yn dymuno gwneud cyflwyniad mewn Cyfarfod o'r Cyngor Tref yn y dyfodol, bydd rhaid i'r Swyddfa dderbyn cais ysgrifenedig, o leiaf pythefnos cyn y Cyfarfod. Ar ol derbyn hyn, bydd Eitem yn cael ei gynnwys ar y Rhaglen. Os na fydd y drefn uchod yn cael ei ddilyn, ni fydd Eitem yn ymddangos ar y Rhaglen.
PENDERFYNWYD i dderbyn yr uchod.

5 **Maes Chwarae Lon Las –** Clerc yn cadarnhau, yn dilyn cymorth gan yr Heddlu, i osod arwyddion o gwmpas y safle yma yn gwahardd mynedfa i'r safle tu allan i'r oriau agor.

6 **Pwyllgor Safonau – Adolygiad o'r Cynghorau Tref a Chymuned – Cofrestr o Ddiddordebau Personol**
Clerc yn adrodd ei fod yn cyfarfod gyda Swyddogion Cyngor Sir Ynys yn ystod yr wythnosau nesaf ynglyn a'r uchod i ymateb ar y canlynol : Gofrestr o Ddiddordebau Personol, Côd Ymddygiad, Seddi Gwag, Ffurflenni Derbyn Swydd, Cofnod o Hyfforddiant Aelodau/Clerc, Brotocol Datrysiad Lleol y Cyngor Tref, Gwefan, Copïau o Gofnodion ers 4 Mai 2017.

Cytunwyd i Aeoldau ymateb gyda gwybodaeth ynglyn a Hyfforddiant a'i ddanfon i'r Swyddfa.

18/186 SEDDI GWAG – WARD CEFNI/CYNGAR

Ward Cefni - Ymgeisydd llwyddiannus ar ei wyliau ac yn ymddiheuro ei fod ddim yn gallu mynychu'r Cyfarfod.

Ward Cyngar - Adroddiad llafar gan y Cadeirydd yn cadarnhau mai un cais sydd wedi ei dderbyn a'i fod wedi cael trafodaeth ar y ffon gyda'r ymgeisydd.

Cyng. Dylan Rees yn cynnig cyf-ethol yr Ymgeisydd yma - Cyng. Christine Roberts yn eilio.

PENDERFYNWYD – derbyn yr uchod a'r Clerc i anfon llythyr i gadarnhau hyn ac i wahodd yr Ymgeisydd i'r Cyfarfod nesaf.

Cyfieithydd - Aelod yn datrys fod yn rhwymedieth statudol i'r Cyngor Tref gael gwasanaeth Dwyieithog, fel bod Cyfieithydd ar gael mewn Cyfarfodydd ac i gyfieithu dogfennau'r Swyddfa a Chofnodion ar gyfer y safle We.

Argymhellwyd i wneud darpariaeth ar gyfer y Precept 2019/2020 ar gyfer cyfleusterau cyfieithu.

PENDERFYNWYD i dderbyn yr uchod.

18/187 ADRODDIAD PWYLLGORAU ALLANOL

1 **11.10.2018 –** Un Llais Cymru – Pwyllgor Ardal Ynys Mon – Dau Aelod wedi mynychu ac yn ateb yn ol ar wybodaeth fod Un Llais Cymru yn cynnig Hyfforddiant GDPR.
Trafodaeth ynglyn a diweddaraf yn ymwneud a'r Peilonau, Gemau'r Ynysoedd yn Mon 2025 ac Darpariaeth y Precept.

2 **17.10.2018 -** Cyfarfod Menter Gymdeithasol Llangefni - Dathlu'r Nadolig. Cadeirydd yn gofyn am gefnogaeth gan Aelodau ar Noson Troi'r Goleuadau ymlaen rhwng 5.00y.h. a 9.00y.h. Gweithgareddau yn mynd ymlaen yn y Dref ar Ddydd Sadwrn yr 8fed o Ragfyr hefyd.

3 **Grwp Llandrillo-Menai –** I ethol Ymgeisydd llwyddianus Ward Cefni –
Cyng. Dylan Rees yn Cynnig – Cyng. Margaret Thomas yn Eilio - **Derbyn.**

4 **Pump Tref – Trefi Mon -** Clerc yn adrodd fod dim cyfarfodydd wedi eu cynnal yn ddiweddar.
Arweiniad strategol gan Gadeirydd Trefi Mon cyn symud ymlaen. **Derbyn.**

18/188 CYLLID

1 **I Dderbyn Mantolen Ariannol Mis Hydref 2018**
Gan fod y Swyddog Ariannol Cyfrifol(Dros Dro) ddim yn bresennol yn y Cyfarfod nid oedd yn bosib ateb cwestiynau ar y Fantolen Ariannol. Aelod yn awyddus i gael golwg ar yr Anfonebau o flaen y Cyfarfod.

2 **Archwiliad Mewnol -** Wedi ei anfon i'r BDO - **Derbyn.**

18/189 GOHEBIAETH A MATERION NEWYDD

1 **Uned Polisi Cynllunio at y Cyd -** Derbyn.

2 **Cynllunio Lle Canolbarth -** Edrych ar wneud cymunedau yn gryfach a mwy cydnerth i'r dyfodol...

3 **Cyngor Gwynedd : Gwasanaeth i goffau 100 mlynedd diwedd y Rhyfel Mawr 11.11.2018 –**
Er gwybodaeth.

4 **National Grid : Gorchymyn Caniatad Datblygu Arfaethedig (Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru)**
Unrhyw sylwadau fydd barn unigolyn ac nid fel Cyngor.

5 **Eglwys St. Cyngar – Gwahoddiad i Gyfarfod 07.11.2018 – Rhyfel Cyntaf –** Croeso i bawb fynychu.

6 **IRPW – Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol –** Cyngor Tref i roi unrhyw sylwadau ymlaen erbyn 27.11.2018.

18/190 GOHEBIAETH : ER GWYBODAETH :

1 **Un Llais Cymru -** **Derbyn**

2 **Materion Eraill -** **Derbyn**

18/191 I YSTYRIED UNRHYW FATER BRYS GAN Y MAER

Cadeirydd yn ail adrodd y broses os bydd Mudiad/Aelodau o'r cyhoedd yn gofyn i gael gwneud Cyflwyniad mewn Cyfarfod o'r Cyngor Tref, bydd angen rhoi rhybudd ysgrifennedig i'r Swyddfa o leiaf 10 diwrnod cyn y Cyfarfod.

Os bydd Aelodau gydag Eitem i'w gynnwys ar Raglen unrhyw un o Gyfarfodydd y Cyngor Tref, mae'r drefn uchod yn berthnasol.

18/192 **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF :** Nos Lun 3ydd o Ragfyr 2018.

CYNG. IEUAN G. DAVIES
CADEIRYDD